TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro

اطلب هذه الرسالة باللغة العربية عن طريق الاتصال ب engagement@tfw.wales
Weydiiso warqaddan oo ku qoran af Soomaali adoo la xiriiraya engagement@tfw.wales
ڈاٹ ویلز سے رابطہ کر کے اردو میں اس خط کی درخواست کریں engagement@tfw.wales

Ionawr 2025

Annwyl Gymydog,

**Cyf: Metro De Cymru – gwaith gosod seilbyst ar Stryd Bute**

**Yn ddiweddar, gwnaethom osod seilbyst ar hyd un rhan o'r rheilffordd ger Stryd Bute. Ar ôl i drigolion lleol fynegi pryderon, gohiriwyd y gwaith hwn, gan ganiatáu i ni aildrefnu'r gwaith i ddigwydd yn ystod oriau dydd er mwyn lleihau'r effaith ar drigolion lleol. Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod bod gennym ddyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer ailddechrau'r gwaith gosod seilbyst.**

**Er ein bod yn deall y gall cynnal gwaith peirianneg yn y nos darfu'n sylweddol ar drigolion, nid ydym yn goddef ymddygiad gwrthgymdeithasol tuag at ein staff ar y safle. Os ydych yn dyst i ymddygiad o'r math hwn ar y rheilffordd, neu tuag at staff sy'n gweithio ar ein safleoedd, anfonwch neges destun at Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar 61016.**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r Metro, yr uwchraddiad mwyaf i drafnidiaeth gyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru ers cenhedlaeth. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae gennym lawer iawn o waith adeiladu, peirianneg a seilwaith i'w wneud er mwyn uwchraddio ein rhwydwaith rheilffyrdd fel ei fod yn barod ar gyfer y Metro. I ddechrau, bydd hyn yn cynnwys gwaith ar linellau rheilffordd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni, Treherbert, lein y Ddinas a lein Bae Caerdydd, a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd.

**Gwaith gosod seilbyst sydd ar y gweill**

Mae angen i ni ymgymryd â phroses adeiladu o'r enw 'gosod seilbyst' er mwyn hwyluso'r gwaith o osod wal gynnal siâp L arfaethedig a fydd yno'n barhaol. Mae hyn yn golygu dirgrynu'r dalennau dur, sef y seilbyst, i mewn i'r ddaear gan ddefnyddio morthwyl dirgrynol nes bod y peiriant yn dod i stop. Yna defnyddir morthwyl gollwng i forthwylio'r dalennau i'r dyfnder angenrheidiol.

Gall gosod seilbyst fod yn waith swnllyd gan ei fod yn defnyddio peiriannau trwm, ac mae lefelau sŵn yn dibynnu ar y pellter o'r lleoliad gosod seilbyst a'r dopograffeg leol. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i leihau sŵn diangen a chwblhau'r gwaith o osod y seilbyst i gyd cyn gynted â phosibl. Yn dibynnu ar amodau'r ddaear, ar gyfartaledd, gall pob seilbost gymryd rhwng 20 a 60 munud fesul sylfaen a osodir. Mae'r gwaith gosod seilbyst yn aml yn cael ei gwblhau fel un dasg mewn un cyfnod gwaith, sy'n caniatáu i'n peirianwyr symud ymlaen i'r lleoliad nesaf, felly ni ddylai'r sŵn byth bara'n rhy hir, ond weithiau mae'n rhaid ymweld â'r safle sawl gwaith yn olynol er mwyn cwblhau'r dasg.

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith gosod seilbyst drwy fynd i trc.cymru/gosodseilbyst

Byddwn yn gweithio o **08:00 tan 18:00**, dydd Llun 3 Chwefror i ddydd Sul 9 Chwefror 2025.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro

**Gwaith peirianneg ar y gweill**

- Byddwn yn gwneud gwaith peirianneg yng ngorsaf Caerdydd Heol y Frenhines o 01:00 ddydd Gwener 31 Ionawr i 04:40 ddydd Llun 3 Chwefror. Trwy gydol y cyfnod hwn, ni fydd unrhyw wasanaethau'n rhedeg trwy orsaf Heol y Frenhines ac ni fydd unrhyw wasanaethau trên yn rhedeg ar lein Bae Caerdydd.
- Mae gwaith yn digwydd rhwng gorsafoedd Caerdydd Heol y Frenhines a Bae Caerdydd o ddydd Llun 3 Chwefror tan ddydd Sul 9 Chwefror. Ni fydd unrhyw drenau'n rhedeg rhwng y gorsafoedd hyn tan 18:00 bob dydd, a chaiff tocynnau trên eu derbyn ar wasanaethau bws/bydd gwasanaethau bws yn lle trên ar waith. Bydd gwasanaeth gwennol yn rhedeg rhwng y gorsafoedd hyn o 18:00 ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn ag amseroedd y gwasanaeth gwennol ar gael yma https://trc.cymru/prosiectau/metro/metro-de-cymru/newidiadau-gwasanaeth

**Rhagor o wybodaeth**

Mae ein tîm ar gael 24/7 i ateb eich cwestiynau, felly ffoniwch 033 33 211 202. Gallwch ddefnyddio WhatsApp i gysylltu â ni - 07790 952507 (0700-2000 ddydd Llun i ddydd Gwener, 0800-2000 ddydd Sadwrn a rhwng 1100-2000 ar ddydd Sul).

Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi ymrwymo i raglen uchelgeisiol o welliannau Metro a elwir yn Drawsnewidiad Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL). Mae'r prosiect trawsnewid hwn wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Yr gywir,

**Tîm Ymgysylltu Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro

اطلب هذه الرسالة باللغة العربية عن طريق الاتصال ب engagement@tfw.wales
Weydiiso warqaddan oo ku qoran af Soomaali adoo la xiriiraya engagement@tfw.wales
ڈاٹ ویلز سے رابطہ کر کے اردو میں اس خط کی درخواست کریں engagement@tfw.wales

January 2025

Dear Neighbour,

## Ref: South Wales Metro – Bute Street piling works

**We recently carried out piling works along the section of railway line by Bute Street. After concerns were raised by local residents, this work was postponed, allowing us to reschedule the works during daytime hours to minimise the impact on local residents. We're writing to let you know that we now have a confirmed date for when piling works will resume.**

**Whilst we understand that carrying out engineering works at night can be extremely disruptive to residents, we do not tolerate anti-social behaviour towards our on-site staff. If you witness behaviour of this nature on the rail line, or towards staff working at our sites, text the British Transport Police on 61016.**

Transport for Wales is delivering Metro, the biggest upgrade to public transport in South-East Wales for a generation.  In the next few years, we have a significant amount of construction, engineering, and infrastructure work to do to upgrade our rail network so that it's ready for Metro. Initially, this will involve work to the Aberdare, Coryton, Merthyr Tydfil, Rhymney, Treherbert, City and Cardiff Bay railway lines, known as the Core Valley Lines.

**Upcoming piling works**

We need to undertake a construction process called 'piling' to facilitate the installation of a proposed permanent L-shape retaining wall. This involves vibrating a sheet pile into the ground using a vibratory hammer until the machine comes to a stop. A drop hammer will then be used to hammer the sheet pile to the required depth.

Piling can be a noisy job as it involves heavy machinery, with noise levels depending on the distance from the piling location and local topography. We'll make every effort to minimise unnecessary noise and complete each pile as quickly as possible. Depending on ground conditions, an average pile may take between twenty to sixty minutes per foundation installation. Some piling is often completed in one job allowing our engineers to move on to the next location, so the noise should never last too long, but some piling requires consecutive visits to complete the job.

You can read more about our piling work at tfw.wales/piling.

We'll be working from **08:00 to 18:00**, Monday 3 February to Sunday 9 February 2025.


Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Ad
Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

**Upcoming engineering works**

- We'll be carrying out engineering works at Cardiff Queen Street station from 01:00 on Friday 31 January to 04:40 on Monday 3 February. Throughout this period, no services will run through Cardiff Queen Street station and no rail services will operate on the Cardiff Bay line.

- Work is taking place between Cardiff Queen Street and Cardiff Bay from Monday 3 February to Sunday 9 February. No trains will run between these stations until 18:00 every day, and ticket acceptance/rail replacement services will be in place. A shuttle service will be in place between these stations from 18:00 onwards. More information on shuttle service times can be found at tfw.wales/projects/ metro/south-wales-metro/service-changes

**More information**

You can access the Bay line FAQs using the links below:

tfw.wales/bayfaqs
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-arabic
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-somali
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-urdu

**Contact us**

Our team is available to answer your questions, so please call us on 033 33 211 202 or visit tfw.wales/help-and-contact. You may contact us via WhatsApp on 07790 952507 (0700-2000 on Monday to Friday, 0800-2000 on Saturday, and 1100-2000 on Sunday).

The Welsh Government and TfW are committed to an ambitious programme of Metro improvements known as the Core Valleys Lines (CVL) Transformation. This transformation project has been part-funded by the European Regional Development Fund.

Yours faithfully,

**Community Engagement team, Transport for Wales**



Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund